# PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PORTHMADOG, 30 MEDI, 2009

**YN BRESENNOL:**

Y Cynghorwyr Alwyn Gruffydd, Selwyn Griffiths ac Ieuan Roberts, (Cyngor Gwynedd), ynghyd â'r Mri Gwyn Davies (Cyngor Tref Porthmadog), Stephen Shakespeare, (Buddiannau Hamdden).

**HEFYD YN BRESENNOL:** Barry Davies (Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig), Ken Fitzpatrick, (Swyddog Morwrol Harbyrau), Trefor Jones, (Harbwr Feistr) ac Ioan Hughes (Swyddog Pwyllgor).

**1. CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ail-ethol y Cynghorydd Ieuan Roberts yn Gadeirydd am y flwyddyn 2009/10.**

**2. IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ail-ethol y Cynghorydd Selwyn Griffiths yn Is-gadeirydd am y flwyddyn 2009/10**

**3. YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr : Dyfed Edwards**,** Cadeirydd Bwrdd y Cyngor), Dai Rees Jones (Is-gadeirydd Bwrdd Y Cyngor), Dewi Lewis, (Ardal Meirionnydd) Peter Lunt Williams (Sefydliad y Bad Achub) a David McLean, (Buddiannau Perchnogion Tir).

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**5. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 11 Mawrth, 2009, fel rhai cywir.

**6. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

Mynegwyd cefnogaeth bellach i reoliadau newydd ynglŷn â'r drosedd o ddefnyddio cwch pan mae'r defnyddiwr dros y lefel o alcohol a ganiateir.

'Roedd yr aelodau'n croesawu'r ffaith mai prin iawn yw'r rhai gaiff eu heithrio o'r rheoliadau ar sail maint a chryfder y cwch. Mewn ymateb i ymholiad, eglurodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig fod hawl gan swyddogion morwrol i gadw unrhyw un allasai fod yn troseddu, ond mai heddwas yn unig fyddai gyda'r

awdurdod i wneud y prawf. Byddai'r rhai fyddai dros y lefel o alcohol a ganiateir yn wynebu'r un gosb â modurwyr sy'n troseddu.

## 7. ADRODDIAD Y GWASANAETH MORWROL

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig a rhoddwyd ystyriaeth i'r materion canlynol yn unigol:

- Morwriaeth
- Is-ddeddfau Harbwr
- Datblygiadau Clwb Hwylio
- Ystadegau harbwr
- Cyllidebau
- Strwythur Staffio Morwrol
- Cynnal a chadw angorfeydd

***Morwriaeth***

Yn dilyn archwiliad gan swyddog Tŷ'r Drindod, cadarnhawyd fod cymhorthion mordwyo Harbwr Porthmadog, ac eithrio rhifau 1, 8, 13, 15 ac 17 mewn cyflwr derbyniol.

Oherwydd newidiadau cyson yn y sianel fordwyo bu'n rhaid ail leoli nifer o gymhorthion mordwyo. Ychwanegwyd fod y bwi tramwyo wedi ei golli ar ddechrau mis Mai ac na fu modd gosod un newydd hyd 4 Mehefin. Pwysleisiodd nad oedd yn dderbyniol cael bwi mordwyo allan o safle am gyfnod hir, a'i bod yn anorfod bod yna fwi ar gael ar y lan fel y byddai modd ei osod mor fuan â phosib pe byddai bwi yn dod yn rhydd yn y dyfodol. 'Roedd yna wyth llusern ar y cymhorthion mordwyo, ac yr oedd cost llusern ar gyfer y bwi mordwyo newydd yn £960.

Yn ogystal, bu'n rhaid cael llusern newydd ar gyfer cymhorthydd mordwyo Borth y Gest. 'Roedd cost hon yn £275. Yn ddiweddarach collwyd y llusern, a bu'n rhaid cael un arall ar gost ychwanegol o £275.

Nodwyd fod yna 11 llusern ar hyn o bryd a phwysleisiodd y swyddog fod y cynnydd yn galonogol. Ychwanegodd fod y llusernau wedi eu gadael yn eu safleoedd gydol y ddau aeaf diwethaf ac mai dyna oedd y bwriad eto eleni.

Cyflwynwyd rhaglen waith cynnal a chadw ar gyfer y gaeaf a chroesawyd gwaith da'r staff.

***Is-ddeddfau Harbwr***

Cyfeiriodd y swyddog at y gwaith a wnaed hyd yma parthed yr Is-ddeddfau Harbwr.

Cyfeiriodd at Is-ddeddf benodol - 42 (2) (a) a (b). Nid oedd Cyngor Tref Porthmadog wedi lleisio barn arni, a galwodd y swyddog am drafodaeth bellach gan geisio barn aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol.

Pwysleisiwyd yr angen i'r Is-ddeddfau sicrhau rheolaeth a nododd y swyddog mai'r targed oedd cynnwys gwahanol fathau o gychod o fewn yr Is-ddeddfau a'u cryfhau'n gyffredinol.
Cytunwyd y byddai cynrychiolydd Cyngor Tref Porthmadog yn cael copi o'r Is-ddeddfau drafft diwygiedig fel y bydd modd iddynt ystyried y cyfan yn llawn. Pwysleisiwyd y pwysigrwydd o gael sylwadau'r Cyngor Tref mor fuan â phosib a bod y Cyngor Tref yn cefnogi'r Is-ddeddfau drafft,

***Datblygiadau Clwb Hwylio***

Gwnaed cais gan Glwb Hwylio Madog i ymestyn y cyfleusterau pontŵn presennol. Nododd y swyddog fod trafodaethau buddiol wedi eu cynnal yn ystod misoedd yr haf a bod rhai trafferthion wedi eu datrys a phryderon wedi eu lleihau.

Yn wreiddiol pryderwyd y byddai ychwanegu at faint y cyfleusterau pontŵn yn amharu ar y llithrfa sydd wedi ei hymestyn, Fodd bynnag, yn dilyn astudiaethau yn ystod yr haf gwelwyd, efallai, na fyddai ymestyn y pontŵn yn cael effaith niweidiol ar ddefnydd y llithrfa gan na ellir lansio cychod ar y trai beth bynnag. Pwysleisiwyd na ddylai unrhyw estyniad amharu ar ddefnydd y llithrfa. Gan fod y pryderon wedi eu lleihau, bydd y cais yn cael ei anfon at sylw'r Uned Eiddo er delio gyda'r mater.

Esboniodd y Swyddog ymhellach y byddai unrhyw gefnogaeth gan yr Awdurdod Harbwr, trwy'r Pwyllgor hwn, yn ddarostyngedig i sicrwydd mai'r Clwb Hwylio fyddai'n wynebu'r gost o ddatrys unrhyw broblem a allasai godi parthed y ffordd mae'r cychod yn eistedd ar yr angorfeydd neu effaith ar unrhyw gadwyn neu angorfa oddi fewn i bellter penodol i'r datblygiad.

Yn ogystal bydd rhai angorfeydd yn cael eu colli yn yr harbwr a bydd angen cymryd camau i wynebu'r golled ariannol yma.

'Roedd y swyddog yn croesawu prysurdeb amlwg y Clwb Hwylio ac yr oedd yn hyderus y bydd y fenter yn llwyddiant. Cyfeiriodd ymhellach at y cydweithio a fu rhwng y Clwb Hwylio a'r Awdurdod Lleol ac atgoffwyd aelodau y gallasai'r Goron hefyd ddod yn rhan o'r newidiadau.

Nodwyd gan gynrychiolydd y Clwb Hwylio eu bod yn awyddus i brysuro ymlaen hefo'r cynllun. Ychwanegodd y byddai'r bwriad i greu wyth angorfa newydd ynghyd ag wyth angorfa i ymwelwyr yn sicrhau £5,000 i'r Cyngor.

***Ystadegau Harbwr***

Mewn tabl a gyflwynwyd i'r aelodau, nodwyd fod yna 892 o Fadau Dŵr Personol wedi cofrestru gyda Chyngor Gwynedd yn 2009 o'i gymharu â 871 yn 2008. Cofrestrwyd 1169 o gychod pŵer sydd eto'n dangos cynnydd.
Cyflwynwyd gwybodaeth yn cymharu'r ffigyrau gyda'r sefyllfa yn y blynyddoedd diwethaf a nodwyd fod y sefyllfa'n parhau'n dderbyniol iawn.

Ychwanegwyd fod nifer y Badau Dŵr Personol a chychod pŵer a gofrestrwyd yn swyddfa harbwr Porthmadog ac ar Draeth y Greigddu yn dangos peth cynyddu eleni o'u cymharu â 2008.
Cofrestrwyd 26 o gychod pŵer yn harbwr Porthmadog gyda 28 yn cael eu cofrestru ar Draeth y Greigddu.

Adroddodd y swyddog ymhellach fod 180 o gychod pleser wedi angori yn yr harbwr eleni sef 75% o'r angorfeydd. 'Roedd 26% o'r rhain wedi eu llogi gan drigolion sy'n byw yn llawn amser yng Ngwynedd.

Mewn ymateb i ymholiad, nodwyd nad oes llongau masnachol wedi eu hangori ym Mhorthmadog.

Nodwyd fod cyfanswm angorfeydd harbwr Porthmadog wedi lleihau dros y 12 mis diwethaf. Daw hyn yn sgil camau i ddileu angorfeydd oedd heb eu defnyddio ers blynyddoedd. Pwysleisiwyd nad oedd pwrpas mewn cadw'r rhain os nad oedd defnydd yn cael ei wneud ohonynt.

Gan fod cyfyngiad yn ardal Borth y Gest bydd angen ail leoli nifer o angorfeydd gan fod rhai ohonynt yn amharu ar fordwyo, yn enwedig gyda'r
nos. Pwysleisiodd y swyddog fod y sefyllfa yn achos cryn bryder, a bod y trafferthion yn cael eu creu oherwydd bod yna angorfeydd yn y sianel mordwyo. Ychwanegodd y byddai'n anghyfrifol i'r Uned anwybyddu'r broblem yma a byddai angen sicrhau bod yr holl angorfeydd sydd yn y sianel fordwyo yn cael eu hail leoli cyn dechrau'r tymor nesaf.

Mae yn fwriad rhoi rhybudd i bob perchennog y byddai'r angorfeydd yn cael eu codi. Yn sgil hyn byddai modd i'r cychod gael eu hangori ar angorfeydd gwag yn yr harbwr am yr un pris â'r hyn sy'n cael ei dalu ar hyn o bryd.

Credai un aelod fod bwiau wedi eu lleoli i arwain cychwyr ac ni allai dderbyn fod problemau difrifol yn y sianel mordwyo.

Cytunwyd y gellid trefnu cyfarfod ar y safle fel y gall y swyddogion morwrol drafod y sefyllfa gyda pherchnogion y cychod. Adroddwyd bod angen sicrhau fod y cyfarfod yn cael ei gynnal cyn y Nadolig a bod yr Harbwr Feistr a'r Swyddog Morwrol Harbyrau yn paratoi rhaglen waith er ail leoli'r angorfeydd erbyn diwedd Mawrth2010.

***Cyllidebau***

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, adroddiad terfynol cyllideb yr harbwr am y flwyddyn 2008/09 yn ogystal â chyllideb refeniw a thargedau incwm yr harbyrau am y flwyddyn ariannol 2009/10.Cyfeiriodd y swyddog at effaith y tywydd hynod anffafriol a gafwyd yn ystod yr haf a rhybuddiodd y bydd angen bod yn wyliadwrus iawn er sicrhau na fydd y gwasanaeth yn ymrwymo arian tu hwnt i'r gyllideb.

Nodwyd bod incwm harbwr Porthmadog hyd yma £8,061 yn is na'r targed incwm. Gosodwyd targed o £80,350 ac mae'r incwm hyd yma yn £72,289. Nid

oedd y swyddog yn rhagweld y bydd yna ychwanegiad sylweddol rhwng mis Hydref a diwedd mis Mawrth 2010.

Nid oedd y swyddog yn orbryderus am y diffyg yma a nodwyd ganddo fod y Cyngor yn rhedeg harbwr Porthmadog ar gost o £8,000. Bydd arbediad pellach ar hyn yn y flwyddyn ariannol bresennol oherwydd newidiadau gyda'r strwythur staffio.

Nodwyd ymhellach fod incwm yr harbwr y flwyddyn ddiwethaf ychydig yn uwch na'r targed.

Diolchwyd yn arbennig i weithwyr yr Uned Forwrol ar y llwyddiant a'r gwaith a wneir ganddynt.

Mewn ymateb i ymholiad, nodwyd fod arian taliadau parcio ar Draeth y Greigddu yn cael ei roi yng nghyllideb y Traethau. Nodwyd fod incwm gros y traeth yn uwch na £100,000 a chytunwyd y byddai'r manylion yn cael eu cyflwyno yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor hwn. Yn dilyn Awst gwael o achos tywydd difrifol llwyddwyd i gadw'r staff yn ystod Medi. Cyfeiriwyd at aelodau staff y traeth a diolchwyd iddynt am eu gwasanaeth proffesiynol.

***Strwythur Staffio Morwrol***

Adroddwyd ar newidiadau staff (dros dro) a fu yn Harbwr Porthmadog, Pwllheli ac Aberdyfi yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Esboniodd y swyddog fod cyfnod secondiad Harbwr Feistr Pwllheli wedi ei ymestyn hyd 31 Rhagfyr 2009 ond byddai'n rhaid i'r secondiad ddod i ben bryd hynny gyda'r Harbwr Feistr yn dychwelyd i Harbwr Porthmadog ar 4 Ionawr, 2010.

Ychwanegodd y swyddog fod y secondiadau wedi rhoi cyfle i weithwyr ennill profiad ac o weithio mewn lleoliadau gwahanol. Pwysleisiodd hefyd na fyddai unrhyw un yn colli swydd.

Tynnwyd sylw'r aelodau ar sefyllfa ariannol argyfyngus y Cyngor a'r angen i foderneiddio ffordd yr Uned o weithio, i fod yn frwdfrydig ac wynebu'r her gydag agwedd broffesiynol.

***Cynnal a Chadw Angorfeydd***

Adroddodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig at gynlluniau i gynnal archwiliad o'r angorfeydd yn ardal Borth y Gest.

Os nad yw angorfa wedi ei defnyddio yn 2008, bydd y perchennog yn cael cyfarwyddyd i'w glirio. Os na wneir hyn cyn Nadolig 2009 bydd swyddogion yr harbwr yn clirio'r angorfa a disgwylir y bydd y gwaith wedi ei gwblhau erbyn diwedd Mawrth 2010.

Yn unol â'r drefn arferol, bydd contractwyr penodedig yn ymdrin â gwaith cynnal a chadw ar angorion harbwr Porthmadog. Gan fod Cyngor Gwynedd wedi buddsoddi'n sylweddol mewn cynnal a chadw ac adnewyddu cadwyni yn ystod y 5 mlynedd diwethaf, nid oedd y swyddog yn rhagweld y bydd angen

gwariant sylweddol yn 2009/10. Ychwanegodd fod angen tacluso'r angorfeydd yn ystod y misoedd nesaf trwy symud hen raffau diangen ac ati.

I gloi, dywedodd y swyddog fod yr haf, ar waetha'r tywydd anffafriol wedi bod yn llwyddiannus. Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog a gweithwyr yr Uned am eu gwaith cydwybodol.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad gyda diolch gan nodi'r sylwadau a wnaed gan yr aelodau.**

## 5. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cadarnhawyd y cynhelir y cyfarfod nesaf o'r pwyllgor hwn ar 10 Mawrth, 2010.

Dechreuodd y cyfarfod am 6pm a daeth i ben am 7:25pm

**CADEIRYDD**